



Canllaw cynllunio ar gyfer pob lleoliad ysgol yng Nghymru

Sylwebaeth a rhestr wirio

GMB / NEU / UNSAIN / Unite

Argyfwng Coronafirws

Rhestr wirio'r gweithle

Mae'r cynigion cyfredol a gyhoeddwyd ar 3 Mehefin 2020 i ehangu agoriad ysgolion o 29 Mehefin yn cyflwyno risgiau sylweddol a nodwyd yn yr adroddiad Cell Cyngori Technegol (TAC) dyddiedig ac a ryddhawyd yr un diwrnod. Ofnir na fydd staff ysgolion yn cael eu diogelu'n ddigonol gan reolau pellhau cymdeithasol na, yn y rhan fwyaf o achosion, fyddant yn cael cynnig unrhyw offer amddiffyn personol (OAP).

Fe fydd yn anodd ofnadwy i blant ifanc iawn gadw at bellhau'n gymdeithasol yn y dosbarth felly gallai ystafelloedd dosbarth plant pedair a phump oed ddod yn ffynonellau trosglwyddo a lledaenu Covid-19. Er y gwyddwn fod gan blant symptomau ysgafn yn gyffredinol, nid ydym yn gwybod digon os gallant drosglwyddo'r afiechyd i oedolion. Fodd bynnag, dywed yr adroddiad TAC y cyfeiriwyd ato uchod ei bod yn "debygol y bydd agor ysgolion yn cynyddu trosglwyddiad yn y grwpiau hyn (staff a rhieni)."

Mae angen i Lywodraeth Cymru gamu'n ôl o 29 Mehefin a gweithio gyda'r undebau addysg i greu'r amodau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i ysgolion ym mis Medi yn seiliedig ar yr egwyddorion a'r profion a nodir isod:

- Diogelwch a lles disgyblion a staff fel y brif egwyddor.
- Dim cynnydd yn nifer y disgyblion nes y cyflwynir data llawn, cyflawnedig a phroffedig perfformiad Trac, Orlhain ac Amddiffyn sy'n cadarnhau lefel y risg.
- Ystyried anghenion penodol myfyrwyr a theuluoedd bregus sy'n wynebu anfantais economaidd.
- Adnoddau ychwanegol ar gyfer lefel uwch o lanhau ysgolion, OAP ac asesiadau risg.
- Ymreolaeth leol i gau ysgolion lle mae profion yn dynodi clystyrau o achosion Covid-19 newydd.

Ar 10 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Gweithredol ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau: Cadw Addysg yn Ddiogel (COVID-19) sydd â'r nod o helpu penaethiaid i baratoi ar gyfer ailagor eu hysgolion yn ehangach. Mae trafodaethau ar y ddogfen hon yn parhau gyda Llywodraeth Cymru.

Mae gweithredu'r camau fel yr awgrymwyd yn debygol o fod yn dasg enfawr a hollol afrealistig i arweinwyr ysgol, sydd o dan bwysau enfawr, ac yn anodd dros ben ei chyflawni mewn ffordd a fydd yn sicrhau y bydd iechyd a diogelwch y staff a'r plant yn cael eu hamddiffyn.

Nid gwneud bywyd yn anoddach yw ein bwriad ond yn hytrach darparu deunydd a fydd yn cynorthwyo i gyflwyno mesurau a materion y dylid mynd i'r afael â hwy gyda phenaethiaid ac awdurdodau lleol i sicrhau'r dychweliad mwyaf diogel i ddisgyblion a staff.

Mae'r sylwebaeth a'r rhestr wirio ar y cyd hwn yn cynorthwyo cynrychiolwyr i graffu'r hyn y disgwylir o arweinwyr ysgolion. Mae'r canllaw yn nodi y dylai arweinwyr ysgolion weithio'n agos gydag undebau, staff a rhieni wrth ddatblygu eu cynlluniau.

Awgrymir cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn. Os na cheir atebion boddhaol ym mhob maes, yna efallai na fydd yn ymarferol nac yn ddiogel ymestyn yr agoriad nes bod pryderon yn cael eu diwallu. Mae rhestr wirio o'r cwestiynau i chi ei defnyddio - ond darllenwch yr holl gyngor a chwestiynau atodol yng ngweddill y ddogfen cyn i chi benderfynu a ddylech ateb Ydw neu Na i bob un ohonynt.



Sylwch hefyd fod pob ysgol yn unigryw ac, er y bydd llawer o nodweddion cyffredin, bydd angen i bob un ystyried unrhyw ffactorau risg perthnasol ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y sylwebaeth a'r rhestr wirio ar y cyd hon. Bydd hyn yn cynnwys pan fydd nifer uchel o heintiau yn datblygu mewn ardal benodol.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud am rôl awdurdodau lleol mewn perthynas ag agor ysgolion yn ehangach

Mae'r ddogfen yn nodi y dylai penaethiaid gadarnhau eu cynlluniau agor yn estynedig gyda chyrrff perthnasol, yn enwedig eu hasesiad risg. Mae hefyd yn bwysig ymgynghori â'r corff llywodraethu.

Wythnos Ychwanegol

Ar 3 Mehefin cynigiodd y Gweinidog y dylid ymestyn tymor yr haf tan 27 Gorffennaf. Wrth wneud hynny, nododd y byddai'r wythnos ychwanegol yn cael ei mantoli trwy ddarparu pythefnos o wyliau hanner tymor yn ystod tymor yr Hydref.

Mae yna faterion logistaidd a chytundebol sylweddol na chawsant eu hystyried ac yr ydym o'r farn nad yw'r cynnig hwn yn ymarferol.

Nid oes gan y Gweinidog y pŵer i newid telerau ac amodau cyflogaeth i orfodi staff i weithio'r wythnos ychwanegol ac roedd y ffaith honno wedi'i chyfleu iddi a'i chodi gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ar 18 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai ysgolion a chynghorau fydd yn cael y gair olaf ynghylch ymestyn tymor yr haf am wythnos ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgolion na'r awdurdod lleol y pŵer i newid telerau ac amodau cyflogaeth. Ni all yr ysgol na'r awdurdod lleol orfodi unrhyw aelod o staff i weithio'r wythnos ychwanegol er bod unigolion yn rhydd i wirfoddoli pe dymument

Dylid cyfeirio unrhyw achosion lle mae cydweithwyr yn cael eu gorfodi neu orfod gweithio'r wythnos ychwanegol yn erbyn eu hewylllys i swyddfa'r undeb yng Nghymru.

Ein cyngor i gynrychiolwyr

Cyn y gall ysgolion agor yn ehangach, fel cyflogwr, rhaid i'r ALL ddarparu templed asesu risg y cytunwyd arno gan yr undeb, a hyfforddiant i arweinyddwyr ysgol ar sut i'w addasu i amgylchiadau'r ysgol unigol.

Mae gan gynrychiolwyr gweithle ac iechyd a diogelwch yr hawl gyfreithiol i ymgynghori ar yr asesiad risg a diwygiadau yn y dyfodol. Mae hefyd angen system adrodd i ganiatáu i staff dynnu sylw arweinyddwyr ysgol am unrhyw ddiffygion mewn trefniadau neu ble nad yw systemau'n gweithredu fel y dylent.

Gwybodaeth Bellach

<https://llyw.cymru/diolgeu-addysg-canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-covid-19>

<https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf>

<https://llyw.cymru/ein-dealltwriaeth-ddiweddaraf-am-covid-19-mewn-perthynas-phlant-ac-addysg>

Crynodeb o gwestiynau'r rhestr wirio i gynrychiolwyr eu hateb

Ar y cyfan

A ymgynghorwyd â chi ar yr asesiad risg ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach? Do Na

Ydych chi'n fodlon ei fod yn mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol?

Ydw Na

Cam 1

Paratoi'r Safle

Arolwg Iechyd a Diogelwch yr Adeilad

A ydych yn fodlon y cydymffurfir â'r arolwg hwn mewn pryd ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach?

Ydw Na

Glanhau a hylendid

Ydych chi'n fodlon â'r trefniadau glanhau a hylendid a fydd yn gweithredu pan fydd eich ysgol yn agor yn ehangach? Ydw Na

Symud o amgylch yr ysgol i leihau cyswllt

Ydych chi'n fodlon y bydd yn ddiogel i staff a phlant symud trwy'r coridorau ac i fyny ac i lawr grisiau o'r dyddiad pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Archwiliad Safle

A ydych yn fodlon y bydd y trefniadau hyn ar waith mewn pryd ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach a byddant yn gweithio ar lefel ymarferol?

Ydw Na

Cam 2

Adolygu argaeledd staff ar gyfer yr ysgol

Archwiliad staff

Ydych chi'n fodlon y bydd lefelau staffio diogel ar waith o'r adeg y bydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Os nad oes pennaeth / dirprwy, USD, Cydlynnydd ADY, gofalwr / staff glanhau ar gael

A fydd yr ysgol yn cau os nad oes unrhyw un o'r staff allweddol hyn ar gael? Os na, a ydych chi'n fodlon y gellir cynnal amgylchedd ddiogel o'r adeg y bydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 3

Ymgylchwyddo â'r maint grŵp mwyaf diogel

A ydych yn fodlon y bydd trefniadau digonol ar gyfer maint grwpiau, pellhau cymdeithasol ac OAP lle bo angen pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 4

Creu a staffio'ch grwpiau addysgu dros dro

A ydych yn fodlon bod y trefniadau pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach yn ddiogel ac yn deg ac y byddant yn dderbyniol i athrawon a chynorthwyywyr dysgu / CCD?

Ydw Na

Cam 5

Camau ymarferol i leihau risg

A ydych yn fodlon bod y materion hyn wedi'u datrys i'ch boddhad mewn pryd ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach?

Ydw Na

Cam 6

Cefnogaeth allanol i ddisgyblion ADY ac Ymddygiad

A ydych yn fodlon bod y materion hyn wedi'u hystyried ac y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r meysydd hyn ar waith mewn pryd ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach?

Ydw Na

Cam 7

Newidiadau i arferion ar gyfer staff a disgyblion

A ydych yn fodlon bod y mater hwn wedi cael sylw digonol cyn eich ysgol agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 8

Cyfathrebu gyda staff

A ydych yn fodlon bod y mater hwn wedi cael sylw digonol cyn eich ysgol agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 9

Cyfathrebu gyda rhieni

Ydych chi'n fodlon bod rhieni'n ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt?

Ydw Na

Cam 10

Rheoli lles ac iechyd meddwl disgyblion a staff

A ydych yn fodlon y bydd mesurau priodol ar waith pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 11

Cynllunio beth i'w ddysgu a sut

A ydych yn fodlon y bydd y materion hyn wedi cael sylw digonol erbyn yr amser i agor eich ysgol yn ehangach?

Ydw Na

Cam 12

Addysg o bell yn ystod agoriad ehangach

A ydych yn fodlon y bydd yr ysgol yn gallu gweithredu ar y ddwy lefel gyda'r staffio sydd ar gael a heb gynyddu'r pwysau ar staff, pan fydd eich ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn

Cam 1 Paratoi'r Safle

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

A yw'r rheolwyr wedi ymgynghori â chi a bod cadarnhad wedi ei roi ichi y rhoddir sylw i bob un o'r pwyntiau canlynol hyn cyn ailagor ysgolion sydd wedi bod ar gau'n llwyr, ac y rhoddir sicrwydd yn ysgrifenedig am ddiogelwch yr ardaloedd canlynol:

- Systemau dŵr poeth ac oer
- diogelwch nwy
- diogelwch tân
- offer y gegin
- Offer arbenigol a ddefnyddir gan ddisgyblion (e.e. ar gyfer mynediad / symudedd / newid)
- diogelwch gan gynnwys systemau rheoli mynediad a larwm ymyrwyr
- awyru

A ydych yn fodlon y cydymffurfir â'r gwiriadau hyn mewn pryd ar gyfer agoriad ehangach?

Ydw Na

Glanhau a hylendid

- Rhaid golchi dwylo wrth gyrraedd ac wrth adael yr ysgol neu'r lleoliad; cyn ac ar ôl trin bwyd; cyn ac ar ôl trin gwrthrychau ac offer a allai fod wedi cael eu trin gan eraill; lle bu unrhyw gyswllt corfforol; ar ôl i bobl chwythu eu trwyn, tisian neu besychu.
- Efallai y bydd angen gosod glanweithyddion dwylo ag o leiaf 60% o alcohol os nad yw golchi dwylo yn ymarferol. Er enghraifft, wrth fynedfeydd yr ysgol neu'r lleoliad.

- Sicrhau cyflenwad effeithiol o gynhyrchion hylendid a glanhau.
- Glanhau rheolaidd. Arwynebau caled i'w glanhau â dŵr cynnes a sebonllyd. Rhaid glanhau o leiaf unwaith y dydd ac yn amlach mewn ardaloedd o ddefnydd uchel gan gynnwys ystafelloedd ymolchi, rheiliau, byrddau, teganau, offer, dolenni drysau, padiau gwthio, tapiau a glanweithyddion dwylo.
- Ystafelloedd i'w glanhau pan fydd gwahanol grwpiau'n defnyddio ystafell.
- Dylid rhoi hancesi papur mewn bin gwastraff ar wahân a'u gwaredu'n ddiogel.
- Dylid cael gwared â sbwriel yn ddyddiol.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

Mae angen sicrwydd ar gynrychiolwyr ynghylch y systemau y bydd y pennaeth yn gallu eu gweithredu. Heb y sicrwydd hwn ni ellir cael unrhyw ddisgwyliadau ar staff na rhieni.

- A fydd sebon ac, yn ddelfrydol, dŵr cynnes ar gael bob amser, gyda systemau ar waith i sicrhau parhad cyflenwad sebon a glanweithydd?
- Sut y bydd yr ysgol yn sicrhau bod plant a staff sy'n cyrraedd yn gallu ciwio'n ddiogel, gyda phellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd, i gael mynediad i'r glanweithydd?
- A fydd lefelau staffio (ac OAP) yn caniatáu digon o staff i gynorthwyo'r disgyblion hynny mewn ysgolion arbennig i wneud hyn pan nad ydynt yn gallu ei wneud yn annibynnol?
- A oes biniau gwahanol ar gael ym mhob ystafell ddothbarth? Oni bai eu bod yn cael eu gweithredu gan bedal, bydd angen glanhau'r caeadau yn rheolaidd trwy gydol y dydd. Sut bydd hyn yn digwydd? Pwy fydd yn eu gwagio yn ystod y dydd?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y cynhyrchion hylendid angenrheidiol yn cael eu cyflenwi i bob ystafell ddothbarth?
- A fydd staff a phlant yn golchi eu dwylo am o leiaf 20 eiliad gyda dŵr a sebon wrth gyrraedd, cyn gadael ac yn rheolaidd trwy gydol y dydd, gan gynnwys cyn ac ar ôl pob egwyl ac amser cinio, a sut y bydd hyn yn cael ei oruchwylio a'i fonitro?

- A fydd disgyblion yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd i ddal peswch a disian gyda hances bapur neu benelin?
- A ddarperir OAP priodol mewn ysgolion lle nad yw disgyblion yn gallu, neu'n llai abl i ddal eu tisian a'u peswch?
- A fydd sychwyr dwylo yn cael eu datgysylltu a'u disodli â thyweli papur a biniau?
- A fydd ffynhonnau yfed allan o ddefnydd?
- Ai dim ond ystafelloedd gyda ffenestri y gellir eu cadw ar agor bydd yn cael eu defnyddio?
- A fydd drysau'n cael eu cadw ar agor i gynorthwyo awyru, lle bo hynny'n bosibl?
- A fydd asesiadau risg ar wahân yn cael eu cynnal mewn dosbarthiadau lle bydd gadael drws ar agor yn peri risg ychwanegol i blant?
- A fydd defnydd y systemau aerdymheru yn dod i ben oni bai y gellir cadarnhau nad oes unrhyw risg ychwanegol?
- A fydd pob rhan o'r adeilad yn cael ei lanhau'n drylwyr bob dydd gan ganolbwyntio'n benodol ar arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd gan nifer o bobl fel llungopiwy, dolenni drysau, topiau bwrdd / cownter, cyfrifiaduron gan gynnwys llygoden a bysellfwrdd, botymau golau, ffonau, cadeiriau, canllawiau grisiau, adnoddau dysgu neu deganau a rennir, offer arbenigol ar gyfer disgyblion ADY, toiledau a dolenni toiledau, sinciau, tapiau ac ardaloedd eraill sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd, gyda glanhau ychwanegol yn ystod y dydd yn ôl yr angen?
- A yw glanhau â dŵr sebonllyd yn ddigonol i gynnal lefelau hylendid digonol?
- A fydd menig a chwistrell diheintydd yn cael eu darparu i bob ystafell ddosbarth rhag ofn y bydd disgybl yn pesychu neu'n tisian ar ddarn o offer?
- A oes gallu ymhlith y staff glanhau i fodloni'r gofynion hyn?

Ydych chi'n fodlon â'r trefniadau glanhau a hylendid a fydd yn gweithredu pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Symud o amgylch yr ysgol

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- A fydd system unffordd yn cael ei chyflwyno? Os na, pam nad oes ei angen?
- Pa drefniadau sy'n cael eu cynnig ar gyfer symud yn ddiogel ar risiau?
- Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio lifftiau - a ellir cyflawni pellter cymdeithasol os yw aelod o staff yn teithio yn y lifft gyda phlentyn?
- Sut y bydd staff a phlant yn ymwybodol o'r trefniadau newydd, gan gyfeirio'n benodol at blant ifanc iawn a'r rhai ag anghenion arbennig?
- Pwy fydd yn monitro cydymffurfriad y systemau? A fydd aelod o staff ar ddyletswydd bob amser?
- A oes angen mesurau eraill mewn coridorau, er enghraifft marciau llawr, tynnu dodrefn, neu fyfyrwyr yn cerdded tu ôl i'w gilydd heb ddal dwylo?
- A oes darpariaeth ar gyfer symud disgyblion a allai fod angen cymorth ychwanegol gan oedolyn o amgylch yr ysgol?
- Sut y bydd disgyblion a staff yn cadw 2 fetr ar wahân, hyd yn oed gyda'r trefniadau hyn?
- Pa drefniadau a gynigir ynghylch mynediad i doiledau disgyblion i sicrhau na fydd gorlenwi yn ystod amser gwersi ac egwyl?
- Pa arwyddion fydd yn cael eu harddangos i gefnogi'r systemau newydd hyn?

Ydych chi'n fodlon y bydd yn ddiogel i staff a phlant symud trwy'r coridorau ac i fyny ac i lawr grisiau o'r dyddiad pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Archwiliad Safle

Cynghorir penaethiaid i archwilio'r ystafelloedd dosbarth sydd ar gael ac unrhyw ystafelloedd eraill y gellir eu defnyddio fel ystafelloedd dosbarth dros dro.

Cwestiynau i gynrychiolwyr:

- O ystyried y gellid rhannu dosbarthiadau, sut yn ymarferol y gellir rhannu adnoddau rhwng dau neu fwy o ystafelloedd dosbarth?
- A fydd angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod gan bob dosbarth yr hyn sydd ei angen arnynt?
- Sut y bydd plant ifanc yn cael eu haddysgu (yn arbennig derbynfa a meithrinfa) heb adnoddau corfforol?

A ydych yn fodlon y bydd y trefniadau hyn ar waith mewn pryd i ysgolion agor yn ehangach a'u bod yn gweithio ar lefel ymarferol?

Ydw Na

Cam 2

Adolygu argaeledd staff ar gyfer yr ysgol

Archwiliad staff



Sylwch: Mae staff addysgu wedi'u contractio ar delerau penodol na ellir eu diwygio heb ymgynghori. Mae staff cymorth ysgolion yn gweithio ar sail tymor yn unig ac felly nid oes rheidrwydd cytundebol arnynt i fod ar gael am yr wythnos ychwanegol a ychwanegir at ddiwedd tymor yr haf. Bydd argaeledd staff cymorth ysgolion yn dibynnu ar gytundeb unigol a rhaid i staff cymorth dderbyn tâl ychwanegol am y cyfnod hwn os caiff ei weithio.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- Ydych chi'n fodlon â'r trefniadau rota arfaethedig?
- A ydych wedi cael sicrwydd y bydd pennaeth / dirprwy, Uwch Swyddog Dynodedig (USD), Cydlynnydd ADY, gofalwr / staff glanhau ar ddyletswydd bob amser.
- A ydych yn fodlon y gellir sicrhau cysondeb i leihau symudiad staff rhwng dosbarthiadau?
- A fydd digon o staff glanhau yn cael eu cyflogi i sicrhau bod y lefelau glanhau uwch gofynnol yn cael eu cwrdd?
- A ydych wedi cael sicrwydd na fydd disgwyl i staff nad ydynt yn staff glanhau wneud gwaith glanhau?
- A yw'r safle wedi'i fesur i ddarganfod cynhwysedd a chyfran uchaf y disgyblion y gellir eu cymhwyso i ganiatáu pellter diogel?(Mae angen ymdrin â hyn yn ofalus mewn perthynas ag argaeledd staff, gan ystyried y rhai sy'n gorfod gweithio gartref oherwydd eu bod yn fregus neu efallai y bydd angen iddynt hunan-ynysu, a lefelau absenoldeb tebygol yn y dyfodol.)
- A yw'n amlwg i'r holl staff a rhieni mai dim ond staff a disgyblion iach nad ydynt yn arddangos symptomau, ac nid oes angen iddynt hunan-ynysu, all fynychu'r ysgol.

- A yw'n amlwg bod staff beichiog a'r rheini â chyflyrau iechyd gwaelodol sy'n eu gwneud yn fregus, sy'n byw gydag aelodau o'r teulu sy'n fregus neu'n cysgodi neu rheini dros 70 oed yn cael parhau i weithio gartref? Os yw staff neu ddysgwyr yn mynychu, rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod unigolion bregus, a'r rhai o'u cwmpas yn cadw at ganllawiau pellhau cymdeithasol llym.
- A yw'r risgiau i staff Du wedi'u hasesu wrth gynllunio rotas? Mae tystiolaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mwy o effaith Covid-19 ar gymunedau Duon gyda nifer anghymesur o farwolaethau yn cael eu cofnodi.
- A fydd rhieni'n cael eu cynghori na all yr ysgol warantu y gallant gadw eu plant yn gymdeithasol bell, gyda chefnogaeth i rieni asesu'r risgiau o anfon eu plentyn i'r ysgol iddynt hwy eu hunain ac aelodau eraill o'r teulu?
- Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer sefydlu staff newydd yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn?
- A yw staff arlwygo wedi bod yn rhan o drafodaethau ynghylch sut y bydd prydau bwyd yn cael eu gweini ac a oes digon o staff arlwygo a goruchwylio amser cinio i sicrhau bod plant yn gallu bwyta eu cinio yn ddiogel?
- A oes gweithdrefn i gau'r ysgol neu'r coleg ar fyr rybudd os yw lefelau staffio yn disgyn i lefelau lle na ellir sicrhau diogelwch?

Ydych chi'n fodlon y bydd lefelau staffio diogel ar waith o'r adeg y bydd yr ysgol yn agor yn ehangach?



**Os nad oes pennaeth / dirprwy, USD,
Cydlynedd ADY, gofalwr / staff glanhau ar
gael**

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- A fydd yr ysgol yn cau os nad oes unrhyw un o'r staff allweddol hyn ar gael?

Os na, a ydych chi'n fodlon y gellir cynnal amgylchedd diogel o'r adeg y bydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 3

Ymglyfarwyddo â'r maint grŵp mwyaf diogel

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- O ystyried bod pellter cymdeithasol i'w ddisgwyl ym mhob rhan arall o gymdeithas, mae'n annerbyniol i Llywodraeth Cymru disgwyl i ysgolion agor heb yr amddiffyniadau sy'n cael eu hargymell ar gyfer amgylcheddau eraill, e.e. siopau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Beth sy'n cael ei gynnig i fynd i'r afael â'r mater hwn?
- Lle mae risg o halogiad yn yr awyr, oherwydd nad yw'n hawdd cadw at bellter cymdeithasol, yn enwedig lle mae staff mewn perygl o boeri neu frathu a lle nad yw disgyblion yn gallu dal neu reoli peswch a disian, mae'r undebau ar y cyd yn credu bod yn rhaid darparu OAP a hyfforddiant ar ei ddefnyddio a'i waredu. A fydd hyn yn digwydd?
- A fydd OAP ar gael ar gyfer sefyllfaoedd brys, er enghraifft pan fydd disgybl yn datblygu symptomau yn ystod y diwrnod ysgol ac yn aros i'w gasglu?
- Pa sicrwydd y gellir ei roi ynghylch trefniadau diogel ar gyfer cyrchu OAP?
- A ellir rhoi cadarnhad, os yw unrhyw aelod o staff yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb, ni fyddant yn cael eu hatal rhag gwneud hynny?

A ydych yn fodlon y bydd trefniadau digonol ar gyfer maint grwpiau, pellhau cymdeithasol ac OAP lle bo angen pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 4

Creu a staffio'ch grwpiau addysgu dros dro

Y cam nesaf yw gweithio allan sut i gymhwyso'r disgyblion cymwys, pe byddent i gyd yn dod i'r ysgol, gan gyfrifo ar gyfer maint grŵp o draean o'r ysgol yn y brif ffrwd a chymryd y bydd pob plentyn yn mynychu ar eu diwrnodau penodol.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- Faint o ddisgyblion y gall pob ystafell ddosbarth eu cymhwyso'n ddiogel i sicrhau eu bod nhw a'r staff yn aros 2 fetr ar wahân wrth fynd i mewn ac allan ac yn ystod y wers? Mae angen i hyn ystyried y niferoedd staff ychwanegol mewn dosbarthiadau gyda disgyblion ADY sydd â chymorth unigol gan oedolyn.
Faint o bobl yn gyfan gwbl fydd mewn ystafell ddosbarth dylai fod y mesur.
- Pa ardaloedd sy'n ddiogel i'w defnyddio at ddibenion gwahanol i'r arfer i gynorthwyo pellhau cymdeithasol?
- Beth yw'r maint dosbarth mwyaf a gynnigir o dan y trefniadau hyn? A ellir disgwyl i staff oruchwylio dosbarth o'r maint hwn yn ddiogel wrth sicrhau bod disgyblion yn gymdeithasol bell?
- A gymerwyd i ystyriaeth bod rhai staff, yn enwedig staff cymorth, fel arfer yn gweithio o bellter agos gyda disgyblion unigol a sut y gall y gwaith hwn barhau mewn modd diogel?
- Mewn ysgolion arbennig, o ystyried lefel y gefnogaeth sy'n ofynnol i ddisgyblion gan oedolion, beth yw nifer ddiogel o bobl i'w gael mewn ystafell ddosbarth a sut mae hyn yn cael ei bennu?
- Mewn ysgolion arbennig, lle bydd pellter cymdeithasol yn amhosibl, pa fesurau sydd ar waith i amddiffyn staff a disgyblion?

- I ba raddau y gellir rhoi sicrwydd i rieni plant ADY y bydd eu plentyn yn dal i weithio gyda, neu'n cael mynediad at, eu gweithiwr allweddol / cynorthwyydd cymorth dysgu?
- A ellir rhoi sicrwydd na fydd disgwyl i gynorthwywyr addysgu, oni bai ei fod yn rhan o'u rôl arferol fel cynorthwyydd addysgu lefel uwch, arwain dosbarthiadau?
- A fydd athrawon cyflenwi yn cael eu cyflogi yn ôl yr angen?
- A fydd uwch arweinwyr ar gael i gymryd dosbarthiadau os oes angen?
- A fydd rhieni'n cael gwybod i beidio â dod â'u plant i'r ysgol os oes prinder staff ar gyfer dosbarth penodol?

A ydych yn fodlon bod y trefniadau pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach yn ddiogel ac yn deg ac y byddant yn dderbyniol i athrawon, cynorthwywyr dysgu a chynorthwywyr cymorth dysgu



Cam 5

Camau ymarferol i leihau risg

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- Sut mae'r ysgol yn bwriadu sicrhau pellhau cymdeithasol ar ddechrau ac ar ddiwedd pob diwrnod ysgol?
 - Pa fesurau sydd ar waith i amddiffyn staff a disgyblion a allai fod angen defnyddio ymyriadau corfforol ar brydiau (mewn darpariaeth amgen (DA) a phrif ffrwd) i amddiffyn disgyblion rhag niweidio eu hunain neu eraill? (Mae'n amlwg na fyddant yn gallu ymbellhau yn gymdeithasol wrth wneud hyn)
 - Pa fesurau sydd ar waith mewn DA i sicrhau bod digon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar y safle i gynorthwyo disgyblion â phroblemau ymddygiad i gadw'n ddiogel? Sut a pha OAP fydd yn cael ei ddefnyddio yn y sefyllfa hon?
 - A yw'n ymarferol i ddarwahanu amseroedd cyrraedd, os felly sut?
 - Sut y bydd rhieni'n cael eu hysbysu a'r system yn cael ei monitro?
 - A oes digon o staff i fonitro plant yn cyrraedd ac yn gadael ar wahanol adegau yn ddiogel?
 - Sut y bydd gorlenwi wrth gatiâu'r ysgol neu yn y maes chwarae yn cael ei atal?
 - Beth fydd yn ddisgwyliedig gan rieni / gofawlyr o ran pellter cymdeithasol a sut y cânt eu hysbysu o'r trefniadau?
 - A fydd rhieni / gofawlyr yn cael eu cyfarwyddo na allant fynd i mewn i'r adeilad heblaw mewn sefyllfa o argyfwng?
 - A fydd canllawiau clir ar fynediad i'r ysgol ynghylch y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer ymwelwyr hanfodol â'r ysgol?
 - A fydd mesurau pellhau cymdeithasol ar waith ar gyfer ymwelwyr â'r ysgol?
 - A fydd ymwelwyr sy'n gweithio'n agos gyda disgyblion yn cael cynnig OAP lle bo angen?
 - Sut y bydd ymwelwyr diawdurdod eraill yn cael eu cadw draw?
 - A fydd digon o staff ar gael ar ddechrau'r dydd (ac yn gallu pellhau'n gymdeithasol) i gynorthwyo plant i ddod i'r ysgol lle bo angen (plant iau / plant ag ADY / pryder ac ati.)?
 - Sut y bydd amseroedd egwyl yn gweithredu i sicrhau pellter cymdeithasol?
 - Beth fydd yn digwydd os yw'r tywydd yn wlyb amser egwyl ac amser cinio?
 - Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau y gellir paratoi a gweini prydau bwyd yn ddiogel?
 - Faint o eisteddiadau cinio gwahanol fydd eu hangen i sicrhau pellter cymdeithasol, ac oes digon o staff ar waith i reoli hyn hyd yn oed lle gallai rhywun fod yn absennol?
 - A ddywedwyd wrth deuluoedd am ddarparu poteli dŵr?
 - Sut y bydd seibiannau i staff yn cael eu gweithredu?
-

- A yw gwasanaethau a dod a grwpiau mawr eraill, gan gynnwys staff ac yn ddisgyblion, ynghyd wedi'u hatal?
- A oes system ar waith ar gyfer ynysu plant sy'n datblygu symptomau yn ystod y dydd, wrth iddynt aros i gael eu casglu?
- A fydd yr holl staff yn cael eu hanfon adref cyn gynted ag y byddant yn rhoi gwybod am symptomau yn ystod y diwrnod ysgol ac a fydd trefniadau ar waith i ddarparu athro cyflenwi yn ôl yr angen?
- A yw ymweliadau oddi ar y safle wedi'u hatal?
- Beth yw'r cynlluniau ar gyfer sicrhau bod staff yn gallu teithio'n ddiogel yn ôl ac ymlaen i'r ysgol?

- I'r rhai nad oes ganddynt gar ac na allant gerdded na beicio i'r ysgol, sut y gallant deithio i'r ysgol yn ddiogel, pan na fydd defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei annog? (noder: ni ddylai rhannu ceir ddigwydd heblaw rhwng aelodau o'r un cartref). Mae angen cytuno ar gynllun teithio diogel ar gyfer pob aelod unigol o staff.
- Pan fydd cludiant ysgol yn gweithredu o dan amgylchiadau arferol, sut y bydd hyn yn gweithredu ar yr adeg hon, gan sicrhau trefniadau pellhau cymdeithasol a hylendid?

A ydych yn fodlon bod y materion hyn wedi'u datrys i'ch boddhad mewn pryd ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach?



Cam 6

Cefnogaeth allanol i ddisgyblion ADY ac Ymddygiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Coronafirws 2020 fel bod yn rhaid i ALNCos ymgymryd ag “ymdrechion rhesymol” i fodloni'r terfyn amser ar gyfer 'adolygiad blynyddol' o ddatganiadau. Ond lle nad yw'n bosibl cwrdd â'r terfyn amser, dylid cwblhau'r adolygiad cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny.

Ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yn parhau i fod dan rwymedigaeth i gydymffurfio â'r gyfraith a'r rheoliadau ynghylch anghenion addysg arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw newid unionrychol i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- A fydd asesiadau risg unigol a thrafodaeth gyda rhieni / gofalwyr wedi digwydd ac wedi cael eu cytuno erbyn y dyddiad pan fydd yr agoriad estynedig yn dechrau, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth sy'n ofynnol gan blentyn er mwyn mynychu'r ysgol yn ei lle yn ddiogel.?
- A fydd cefnogaeth awdurdodau lleol i blant, yn enwedig y rhai sydd gyda 'datganiad', yn sicrhau y gall plant ag anghenion ychwanegol neu arbennig fynd i'r ysgol, ochr yn ochr â'u cyfoedion?
- A fydd canllawiau clir ar fynediad i'r ysgol ynghylch y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer ymwelwyr hanfodol o asiantaethau allanol sy'n ymweld â disgyblion yn yr ysgol (e.e. seicolegwyr addysg, gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion (CAMHS), cymorth ymddygiad, athrawon ymgynghorol ac ati)

- Wrth weithio gyda phlant ag anghenion gofal personol, gan gynnwys y rhai a allai ddod i'r ysgol mewn cewyn, a wnaed asesiad risg unigol llawn, gan gynnwys OAP priodol a materion diogelu?
- A fydd mesurau pellhau cymdeithasol ar waith ar gyfer ymwelwyr o asiantaethau cymorth allanol sy'n ymweld â disgyblion yn yr ysgol?
- A fydd ymwelwyr sy'n gweithio'n agos gyda disgyblion yn cael cynnig OAP lle bo angen?
- Os na all ALLau ddarparu cymorth trawma ychwanegol i ddisgyblion, a ellir cael sicrwydd ansawdd ac asesiad risg ar gyfer darparwr arall mewn pryd cyn bo'r ysgol yn agor yn ehangach?

A ydych yn fodlon bod y materion hyn wedi'u hystyried ac y bydd mesurau sy'n cwmpasu'r meysydd hyn ar waith mewn pryd ar gyfer agor eich ysgol yn ehangach?

Ydw Na

Cam 7

Newidiadau i arferion ar gyfer staff a disgyblion

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- A ddarperir arweiniad a hyfforddiant i staff i sicrhau eu bod yn deall, ac yn gallu gorfodi, yr arferion newydd a chefnogi disgyblion i'w deall ac yn gyfarwydd â threfniadau corfforol diwygiedig, ymhell cyn i ysgolion agor yn ehangach?
- A fydd asesiadau risg disgyblion unigol ar waith ar gyfer pob disgybl sy'n arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol, e.e. brathu, cyn gwneud penderfyniad ynghylch eu derbyn o dan y trefniadau newydd?
- A fydd polisiâu ymddygiad tosturiol a chymesur sy'n amddiffyn iechyd a diogelwch, tra hefyd yn cefnogi disgyblion a allai arddangos ymddygiadau problemus fel ymateb i drawma y gallent fod wedi'i brofi yn ystod y broses gloi, fod wrth waith cyn i ysgolion agor yn ehangach?
- Ni fydd yn ddiogel marcio llyfrau plant yn ystod y cyfnod hwn. A roddir cyfarwyddyd clir na ddylid marcio ac na ddylid mynd â'r llyfrau yn ôl ac ymlaen i'r cartref / ysgol?
- A fydd staff yn cael eu cyfarwyddo i olchi eu dwylo cyn ac ar ôl trin llyfrau disgyblion?
- A fydd llyfrau llyfrgell yn cael eu glanweithio'n rheolaidd?
- Bydd rhai cynorthwyrwyr addysgu wedi arfer gweithio yn agos iawn at ddisgyblion unigol, sut y gall y gwaith hwn barhau mewn modd diogel?
- A yw rhieni wedi cael gwybod am drefniadau newydd ar gyfer arferion gollwng a chasglu eu plant?
- A yw ymwelwyr rheolaidd eraill â'r ysgol, e.e. rhieni gwirfoddol, wedi cael gwybod na ddylent fod yn bresennol ar yr adeg hon?
- A yw contractwyr hanfodol, gan gynnwys y rhai sy'n dosbarthu bwyd, yn deall sut y gallant fynd i'r adeilad a pha ragofalon a ddisgwyllir ganddynt tra byddant ar y safle?
- A yw'r staff arlwyo yn ymwybodol o arferion gweithio diogel newydd?

A ydych yn fodlon bod y materion yma wedi cael sylw digonol cyn eich ysgol agor yn ehangach?

Ydw Na

Cam 8

Cyfathrebu gyda staff

Dylai mecanweithiau cymorth clir fod ar waith, er enghraifft mynediad at raglenni cymorth gweithwyr.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- A fydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth cyn ailagor yr ysgol?
- A yw'r staff yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt?
- A fydd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn amlwg yn bresennol o amgylch yr ysgol yn ystod y dydd?
- Pa drefniadau a roddir ar waith i sicrhau adborth rheolaidd ar drefniadau i staff?

Ydych chi'n fodlon â threfniadau cyfathrebu parhaus?

Ydw Na

Cam 9

Cyfathrebu gyda rhieni

Cynghorir penaethiaid i gyfathrebu â rhieni fel eu bod yn gwybod pwy fydd yn mynd i'r ysgol, pryd, a pha fesurau fydd ar waith i 'sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn deall y disgwyliadau'.

Ydych chi'n fodlon bod rhieni'n ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt?

Ydw Na

Cam 10

Rheoli lles ac iechyd meddwl disgyblion a staff

Cydnabyddir y gallai cau ysgol fod wedi achosi anawsterau iechyd meddwl sylweddol i rai plant ac efallai bod rhai wedi dioddef profedigaeth. Gall staff gael eu heffeithio yn yr un modd.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- Pa arweiniad a roddir i staff ar sut i gefnogi plant?
- Pa wasanaethau cymorth bugeiliol fydd ar gael?
- A yw'r ysgol yn cydnabod ei dyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch i amddiffyn iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol staff?
- Pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau bod y ddyletswydd hon yn cael ei gweithredu?
- Pa wasanaethau cwnsela sydd ar gael i staff a disgyblion a allai fod angen cymorth?
- Sut y bydd yr ysgol yn monitro baich gwaith ar yr adeg hon i sicrhau cydbwysedd gwaith / bywyd rhesymol i staff?

A ydych yn fodlon y bydd mesurau priodol ar waith pan fydd yr ysgol yn agor yn ehangach?



Cam 11

Cynllunio beth i'w ddysgu a sut

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- Mae eraill yn argymhell y dylid dysgu plant i beidio â chyffwrdd â'u hwyneb - sut y gellir dysgu neu fonitro hyn yn realistig?
- Argymhellir hefyd y dylid glanhau ardaloedd a geir eu cyffwrdd yn aml, gan gynnwys teganau, yn rheolaidd - pa adnoddau staff ychwanegol a ddyrennir i'r tasgau hyn, o gofio bod y deunyddiau hyn yn debygol o gael eu defnyddio'n gyson?
- Sut y bydd staff yn sicrhau nad yw plant yn rhannu adnoddau?
- Sut y bydd staff yn cael eu cefnogi i ddysgu disgyblion sydd ddim yn eu grŵp blwyddyn / cyfnod allweddol arferol?
- A roddwyd amser i staff weithio gyda'i gilydd i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer dysgu plant?
- A nodwyd amser i staff weithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer addysgu, yn enwedig i addasu eu gwersi ymarferol a chyfnod sylfaen i sicrhau na rennir adnoddau corfforol?
- A roddwyd cefnogaeth i gynorthwyyr addysgu i baratoi ar gyfer cefnogi disgyblion?
- Sut y bydd staff yn cynnal dilyniant dysgu a chefnogaeth wrth i ddisgyblion ddychwelyd, ond sydd hefyd yn cael cyfnodau ychwanegol o amser i ffwrdd?

A ydych yn fodlon y bydd y materion hyn wedi cael sylw digonol erbyn yr amser i agor eich ysgol yn ehangach?

Ydw Na

Cam 12

Addysg o bell yn ystod agoriad ehangach

Mae canllawiau Llywodrath Cymru yn rhoi pwyslais ar ddull 'cyfunol' o ddysgu. Bydd angen mwy o staff yn yr ysgol pan fydd ysgolion yn agor yn ehangach, felly gallai fod yn anoddach cynnal yr un lefel o ddarpariaeth dysgu o bell i ddisgyblion. Bydd yn ofynnol o hyd i bob disgybl barhau i ddysgu gartref.

Cwestiynau i gynrychiolwyr eu gofyn:

- Pa drefniadau fydd ar waith ar gyfer grwpiau blwyddyn?
- Pa drefniadau fydd ar waith ar gyfer disgyblion â chyflyrau iechyd gwaelodol na allant fynychu pan all gweddill eu grŵp blwyddyn fod yn yr ysgol?
- Sut y bydd yr uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) yn sicrhau nad yw unrhyw newid yn y trefniadau agor yn ehangach yn cynyddu baich gwaith staff os ydynt yn gweithio gartref neu yn yr ysgol?

A ydych yn fodlon y bydd yr ysgol yn gallu gweithredu ar y ddwy lefel gyda'r staffio sydd ar gael a heb gynyddu'r pwysau ar staff, pan fydd eich ysgol yn agor yn ehangach?

Ydw Na